## BD04 Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Biodiversity and the nature emergency | Bioamrywiaeth a'r argyfwng natur**

Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru | Evidence from Natural Resources Wales

# Nodyn briffio:

# Gweithredu COP15

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Cyd-destun**

1. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn archwilio sut mae canlyniad COP15 yn llywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng natur a materion cysylltiedig. Mae'n ystyried y ffordd orau y gall Cymru weithredu cytundeb rhyngwladol ar fioamrywiaeth COP15 ar lefel ddomestig.

2. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys rheoleiddio, dynodi, rheoli tir, a gwaith monitro a chasglu tystiolaeth statudol mewn perthynas â rheoli bioamrywiaeth a chadwraeth natur. Mae'r cyflwyniad tystiolaeth hwn yn darparu ein hymateb i ymchwiliad y pwyllgor i weithrediad y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yng Nghymru.

**Cefndir**

3. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) Kunming-Montreal, y cytunwyd arni yn y bymthegfed Gynhadledd Pleidiau (COP15) yn ddiweddar, yn nodi ei diben fel a ganlyn:

   a. '*y nod yw cataleiddio, galluogi a symbylu gweithrediad brys a thrawsnewidiol gan lywodraethau, ac awdurdodau is-genedlaethol a lleol, gyda chyfranogiad y gymdeithas gyfan, i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn ei weledigaeth, ei genhadaeth, ei nodau a'i dargedau…*'.

4. Mynychodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, uwchgynhadledd COP15 GBF, a bu'n rhan o drafodaethau is-genedlaethol a sgyrsiau eraill fel rhan o drafodaethau COP15 cyn y cytunwyd ar y fframwaith terfynol. Mae Cymru hefyd yn bartner ym Mhroses Caeredin ac yn cefnogi'r bwriad i fabwysiadu cynllun gweithredu ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol a lleol i ysgogi a chyflawni camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer byd natur.

5. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi argyfwng natur ac, yn ddiweddar, cynhaliodd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar sut y gall Cymru weithredu Targed 3 GBF ('30 erbyn 30') i ddiogelu a rheoli 30% o amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol ar gyfer natur yn effeithiol erbyn 2030. Mae cynllun gweithredu, sy'n cael ei gyd-gynhyrchu, yn cael ei ddatblygu i roi'r argymhellion ar waith a chyhoeddwyd diweddariad ar gynnydd <https://www.llyw.cymru/plymio-dwfn-

bioamrywiaeth-diweddariad-cynnydd-hydref-2022-i-ebrill-2023> yn ddiweddar. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn ymrwymo i sefydlu targedau natur statudol i warchod ac adfer bioamrywiaeth, ac roedd yr archwiliad dwfn yn cydnabod bod eu hangen fel rhan o'r gwaith o ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chyflawni cyfraniad GBF Cymru.

6. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gwneud ymrwymiadau i adnewyddu Polisi Adnoddau Naturiol Cymru a'r Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol (y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar hyn o bryd) er mwyn adlewyrchu targedau GBF ac argymhellion yr archwiliad dwfn, ac i ysgogi camau gweithredu cyfraniad Cymru at y cytundeb GBF.

**Dulliau o weithredu GBF Kunming-Montreal yng Nghymru**

**Ymateb y DU i'r GBF mewn perthynas â Chymru**

7. Y Grŵp Bioamrywiaeth Pedair Gwlad (4CBG) yw'r corff llywodraethu arweiniol ar gyfer Fframwaith Bioamrywiaeth y DU ac mae'n cynnwys gweinyddiaethau gwledydd (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ac asiantaethau cadwraeth natur cysylltiedig (gan gynnwys CNC). Mae pob un o bedair gwlad y DU yn gyfrifol am ddatblygu eu dulliau polisi eu hunain ar gyfer cyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol ynghyd â'u blaenoriaethau domestig, ac nid yw'r rhain yn rhan o'r fframwaith. Ym mhob achos, caiff gwarchod ac adfer byd natur eu hystyried yn rhan o set ehangach o bolisïau rhyng-gysylltiedig sy'n cwmpasu, er enghraifft, newid hinsawdd, iechyd a llesiant, adferiad gwyrdd, cyllid glas a gwyrdd, rheoli adnoddau yn gynaliadwy, defnydd tir, a physgodfeydd.

8. Bydd ymateb y DU i'r ddogfen GBF yn rhoi crynodeb o waith y DU o weithredu'r GBF yn seiliedig ar strategaethau a chynlluniau cyflawni unigol pedair llywodraeth y DU, Fframwaith Bioamrywiaeth y DU, a strategaethau perthnasol eraill, gan gynnwys Strategaeth Forol y DU. Caiff y gwaith ei gydlynu gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur ar ran y gweinyddiaethau. Mae'n cynnwys datblygu dehongliad cyffredin o dargedau GBF mewn perthynas â phob gwlad, nodi cyfleoedd cyflawni sy'n fwy uniongyrchol ar lefel y DU, ac egluro sut i fonitro cyflawniadau a sut i gynnal adroddiadau cyfunol symlach ar lefel y DU. Bydd angen i'r holl agweddau hyn ymgorffori deddfwriaeth a dulliau polisi sy'n benodol i Gymru sy'n bodoli eisoes. Wrth i'r strategaethau a chynlluniau domestig hyn ddatblygu dros oes Fframwaith Bioamrywiaeth y DU, bydd Mecanwaith System Glirio'r DU yn gweithredu fel ystorfa o strategaethau gwledydd cyfredol.

9. Y llywodraethau fydd yn atebol am gyflawni eu cynlluniau a strategaethau domestig, yn ogystal â gweithredu cyfraith amgylcheddol, yn ôl strwythurau llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru**

10. Mae’r Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yng ngoleuni’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd. Mae'n hanfodol bod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar ei newydd wedd yn amlinellu'n glir sut mae Cymru am fynd ati i gyflawni'r targedau GBF newydd ac yn ysgogi camau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys egluro trefniadau llywodraethu a gofynion adrodd ar gynnydd er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu'n dryloyw ac yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar arolwg effeithiolrwydd i lywio’r gwaith o adnewyddu’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

11. Yn ogystal â mynd i’r afael â chadwraeth, adfer, a defnydd cynaliadwy o fioamrywiaeth, rhaid i’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd ymgorffori dulliau o brif ffrydio ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws pob sector. Mae mabwysiadu dull rheoli ymaddasol yn hanfodol er mwyn cwmpasu gwaith adolygu a gwerthuso rheolaidd ac addasu strategaethau a chamau gweithredu yn seiliedig ar wybodaeth newydd, canfyddiadau gwyddonol, a dysgu parhaus o lwyddiannau a heriau ar gyfer gwella darpariaeth.

**Fframwaith deddfwriaethol Cymru**

12. Mae gan Gymru ddeddfwriaeth sylfaenol gref i alluogi adferiad byd natur yng nghyd-destun yr agenda datblygu cynaliadwy ehangach ar ffurf Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, mae dyletswydd adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn fecanwaith allweddol ar gyfer ysgogi gwelliannau ar gyfer byd natur yn y sector cyhoeddus ym mhob awdurdod cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru. Yng ngoleuni’r GBF newydd, ceir cyfle i ddarparu’r fframwaith i geisio cyflawniad ac atebolrwydd cryfach i bob awdurdod cyhoeddus trwy eu rolau, ac i gynhyrchu mwy o gamau gweithredu ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus.

**Targedau natur statudol**

13. Mae targedau wedi'u rhwymo mewn cyfraith yn allweddol i ysgogi camau gweithredu, ac yn hanfodol ar gyfer darparu llinell weledіad glir tuag at y targedau GBF. Roedd argymhellion yr archwiliad dwfn yn cynnwys yr angen i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer targedau adfer natur cyffredinol mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, yn ogystal â chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chyflawni cyfraniad GBF Cymru.

14. Bydd angen i'r gwaith ar ddatblygu targedau fynd rhagddo'n gyflym er mwyn helpu i ysgogi cyflawniad erbyn 2030. Mae sefydlu grŵp arbenigol i ddatblygu fframwaith priodol o dargedau adfer natur interim a hirdymor yn hanfodol er mwyn ymgorffori gwybodaeth o bob rhan o Gymru a dysgu a phrofiadau o ddulliau gweithredu gwledydd eraill y DU, gan gynnwys targed helaethrwydd rhywogaethau

<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/91/made> Lloegr, sy'n rhan o gyfres o dargedau ‘uchafbwynt’.

**15.** Un dasg hanfodol yw egluro sut y gellir diffinio targedau GBF, ac yn benodol 30 erbyn 30, yn fanylach ar gyfer Cymru, i gyd-fynd hefyd â gwledydd eraill y DU, a defnyddio’r dystiolaeth wyddonol orau posibl i gefnogi'r gwaith o olrhain cynnydd a monitro canlyniadau. Mae sylfaen dystiolaeth gadarn i ategu targedau natur sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith yn hanfodol, ac mae mecanweithiau sefydledig megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (gweler yn ddiweddarach) yn cynnig y cyfle i gefnogi hyn.

**16.** Mae angen i’r gwaith o ddatblygu targedau natur gynnwys y rhai sydd â diddordeb technegol uniongyrchol mewn adferiad byd natur. Mae'r un mor hanfodol y caiff mewnbwn gan ystod ehangach o randdeiliaid eraill ei ystyried, gan gynnwys buddiannau sefydliadol a buddiannau'r sector preifat, yn enwedig ar gyfer targed adeiladu capasiti posibl er mwyn cynhyrchu’r capasiti ac adnoddau cyfunol sydd eu hangen i gyflawni dyheadau’r GBF. Mae cyfyngiadau o fewn y GBF newydd o hyd – er enghraifft, dyddiad targed penodol ar gyfer atal difodiant rhywogaethau a achosir gan ddyn – a fyddai o gymorth i asesu llwyddiant tymor hwy a gwella cymorth ar gyfer cyflawni canlyniadau adfer rhywogaethau. Ar gyfer Cymru, mae dangosyddion cenedlaethol wedi’u datblygu i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r nodau Cymru Gydnerth a Chymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang sydd wedi’u hymgorffori yn y ddeddfwriaeth llesiant, gan gynnwys Dangosydd Bioamrywiaeth 44, y gellid eu hadolygu i gynnwys hyn a llywio'r gwaith o gyflawni targedau.

**17.** Wrth ddiffinio llwyddiant 30 erbyn 30, bydd angen i dargedau gyd-fynd ag uchelgeisiau pedair gwlad y DU er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd ar lefel y DU.

**Integreiddio â pholisïau eraill**

**18.** Mae angen integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth yn llawn i bob polisi a sector perthnasol arall, megis amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, cynllunio trefol, a lliniaru ac addasu i’r newid yn yr hinsawdd, er mwyn sicrhau cydlyniaeth a synergedd rhwng cadwraeth bioamrywiaeth a nodau datblygu cynaliadwy eraill.

**19.** Bydd y newidiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru, sy’n ymwneud yn bennaf â budd net bioamrywiaeth, cydnerthedd ecosystemau, a chryfhau’r amddiffyniad sydd ar gael i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn gam sylweddol ymlaen i roi natur wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a chyflwyno cynigion datblygu.

**20.** Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel rhan o Fil Amaethyddol (Cymru) ar gyfer cymorth rheoli tir ar ôl Brexit. Rydym yn

gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi dyluniad y cynllun i adfer bioamrywiaeth i'r eithaf a chefnogi ffermio sydd o werth mawr i natur.

**21.** Mae Strategaeth Forol y DU (ymateb y DU i Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE) yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni Statws Amgylcheddol Da ar gyfer moroedd y DU, gan gynnwys datblygu dangosyddion, rhaglenni monitro, a rhaglen o fesurau cyflawni. Mae'r strategaeth forol yn cynnwys disgrifydd penodol ar fioamrywiaeth.

**22.** Fel rhan o'r gwaith o drosi uchelgeisiau adfer byd natur yn ymateb ymarferol ac adeiladu partneriaethau cysylltiedig â chymunedau, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol yn eu cynlluniau llesiant, ynghyd â'r saith Datganiad Ardal, sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Cynhyrchwyd Datganiadau Ardal i gefnogi darpariaeth sy'n seiliedig ar le ar gyfer y Polisi Adnoddau Naturiol trwy weithio ar y cyd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir ym mhob datganiad. Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn fwy diweddar wedi newid cyd-destun sgyrsiau cynharach rhwng partneriaid yn sylweddol, felly, yn ystod 2023/24, bydd CNC yn adolygu'r holl Ddatganiadau Ardal i drafod cyflawniadau, yr hyn sydd angen ei newid, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i lywio'r camau nesaf. Rydym hefyd yn bwriadu adnewyddu Datganiadau Ardal i adlewyrchu amcanion llesiant ein cynllun corfforaethol newydd yn llawnach, ynghyd ag ystyried y blaenoriaethau newydd a nodir gan y Polisi Adnoddau Naturiol nesaf.

**Gweithredu uniongyrchol o ran cadwraeth a gwaith adfer**

**23.** Mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trafodaethau cadwraeth ac adfer wedi'u targedu yn allweddol i warchod a gwella cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau, ac i alluogi Cymru i roi'r GBF newydd ar waith. Mae sefydlu ardaloedd gwarchodedig priodol a phrosiectau adfer cynefinoedd, a hyrwyddo arferion rheoli tir a morol cynaliadwy, oll yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith. Bydd camau gweithredu ar y cyd, a ddatblygwyd o ganlyniad i'r archwiliad dwfn, yn canolbwyntio ar amddiffyn 30% o'n tir, ein dŵr croyw a'n môr yn well ar gyfer byd natur, a'i reoli'n effeithiol, erbyn 2030. Bydd cwblhau rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn sicrhau yr eir i'r afael â diffygion diogelu morol ac y cyfrannir at rwydwaith lefel y DU sy'n gydlynol yn ecolegol.

**24.** Mae CNC eisoes yn arwain neu'n cymryd rhan weithredol mewn nifer o raglenni cyflawni natur uniongyrchol mawr, gan gynnwys y canlynol:

a. Yn un o nifer o raglenni natur blaenllaw, mae Natur am Byth yn bartneriaeth o naw o elusennau amgylcheddol ar gyfer rhai o'n rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf sydd wedi dod at ei gilydd i ysbrydoli gweithrediad cymunedol. Ariennir y rhaglen pedair blynedd o hyd hon, sydd werth £8 miliwn, gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, CNC, Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ystod o ymddiriedolaethau, sefydliadau

a rhoddwyr corfforaethol. Mae cyfres o brosiectau ledled Cymru yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad rhywogaethau, yn hyfforddi tirfeddianwyr a chymunedau ar sut i reoli'n gynaliadwy, ac yn treialu dull newydd o adrodd am adferiad rhywogaethau. Mae uwchsgilio ymarferwyr ac ysbrydoli pobl i ofalu am fywyd gwyllt yn hanfodol i Natur am Byth, ac mae'n cynnwys rhaglen arloesol sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau, rhwydwaith o hyfforddeion a gwirfoddolwyr, a chynllun cymorth cymunedol er mwyn gweithredu ar lawr gwlad. Mae adfer a gwella cynefinoedd i gynyddu poblogaethau rhai o'n rhywogaethau sydd o dan y bygythiad mwyaf yn cynnwys gwaith ar gyfer y gylfinir, yr eog a brithyll y môr, yr wystrysen gynhenid, glöyn byw brith y gors, y gardwenynen feinlas, a'r wiwer goch.

b. Mae'r rhaglen Rhwydweithiau Natur, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn ein galluogi i ddylunio a chyflawni prosiectau i wella cyflwr a chysylltedd safleoedd gwarchodedig ac yn creu rhwydweithiau ecolegol gwydn a fydd yn caniatáu i'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd o dan y bygythiad mwyaf ffynnu. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfres o brosiectau sy'n canolbwyntio ar Rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Rydym hefyd yn datblygu map Rhwydweithiau Natur er mwyn amlinellu meysydd ffocws allweddol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cyflawni.

c. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cynyddu'r ymdrechion i gadw carbon o dan glo mewn dyddodion mawn, ac mae gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer adfer dalfeydd carbon mwyaf effeithiol byd natur.

d. Mae ein pum prosiect Undeb Ewropeaidd LIFE, dan arweiniad CNC, sef LIFE Afon Dyfrdwy, Twyni Byw, Pedair Afon LIFE, Corsydd Crynedig LIFE, a LIFE ar gyfer Adfywio Cyforgorsydd Cymru, yn gyfanswm gwerth £27 miliwn o waith cadwraeth uniongyrchol a chodi ymwybyddiaeth o'r cynefinoedd hollbwysig hyn.

**Monitro ac adrodd**

**25.** Mae nodau a thargedau GBF yn gofyn am systemau monitro ac adrodd cadarn er mwyn olrhain cynnydd ac asesu statws a thueddiadau bioamrywiaeth Cymru ar ystod o raddfeydd. Bydd tystiolaeth o'r fath yn hanfodol i lywio'r gwaith o gynllunio ymyriadau a gwerthuso effeithiolrwydd gwaith rheoli. Bydd y grŵp gorchwyl monitro a thystiolaeth, a sefydlwyd o ganlyniad i'r archwiliad dwfn, yn canolbwyntio ar sefydlu fframwaith i Gymru a fydd yn galluogi gwerthusiad o 30 erbyn 30 a thargedau adfer natur ehangach, gan ystyried uchelgeisiau tymor byr, canolig a hir. Bydd y fframwaith hwn yn darparu gwerthusiad cyflawn o ganlyniadau mewn perthynas â set o fetrigau cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau ar ystod o raddfeydd priodol.

**26.** Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020, a gynhyrchwyd gan CNC, ac Adroddiad Cyflwr Natur 2019 yn tanlinellu'n gyson sut mae adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio'n sylweddol. Maent yn darparu tystiolaeth

greiddiol ar gyfer Polisi Adnoddau Naturiol Cymru sy'n gosod blaenoriaethau cenedlaethol ac yn sail i Ddatganiadau Ardal a'u camau gweithredu. Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn asesu i ba raddau y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni a statws bioamrywiaeth yng Nghymru hefyd. Mae'n amlygu'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, neu'n debygol o effeithio, ar sefyllfa adnoddau naturiol. Mae'r dystiolaeth yn dangos pa mor frys ac angenrheidiol yw'r angen i weithredu mwy o ran bioamrywiaeth. Mae dull y ddau adroddiad yn weddol debyg ac yn asesu maint, sefyllfa a thueddiadau adnoddau naturiol ac ecosystemau. Mae'r ddau yn asesu'r hyn a all ysgogi newid a'r cyfleoedd i wneud newidiadau y mae eu hangen er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ddatblygu’r fersiwn lawn nesaf o’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sydd i’w chyhoeddi yn 2025.

**Cynllun corfforaethol CNC, ‘Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda’n Gilydd’**

**27.** Mae cynllun corfforaethol newydd CNC ar gyfer 2030 – a fydd yn cael ei lansio’n gyhoeddus ar 6 Mehefin – yn canolbwyntio ar natur fel un o’n tri amcan llesiant craidd**:**

- **i. mae natur yn gwella**
- ii. mae cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- iii. mae llygredd yn cael ei leihau

**28.** Rydym yn credu y gellir adfer natur trwy wneud y canlynol:

- ei gwarchod
- ei hadfer
- ei pharchu a'i gwerthfawrogi wrth wneud penderfyniadau
- ailgysylltu pobl a chymunedau â byd natur
- bod yn enghraifft o sefydliad natur bositif

**29.** Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu ystod eang o gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas ag adfer byd natur. Er mwyn cyflawni’r rhain, yn enwedig er mwyn adfer bioamrywiaeth ar lefel ehangach ledled Cymru, mae sylfaen gyflawni gref sy’n ymgorffori adeiladu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth, datblygu sgiliau, a chyllid cyhoeddus a phreifat cyfrifol yn hanfodol er mwyn cyflawni ar gyfer byd natur ar raddfa lawer mwy a chyflymach.

**Hyrwyddo cyd-gynhyrchu #TîmCymru**

**30.** Mae gweithredu’r targedau GBF yng Nghymru yn gofyn am ddull gweithredu cynhwysfawr a chydgysylltiedig ledled Cymru, ym mhedair gwlad y DU a thu hwnt. Mae’r GBF yn darparu cyfle hynod bwysig o ran eirioli er mwyn archwilio adfer bioamrywiaeth yng Nghymru gydag ystod ehangach o lawer o sectorau a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Mae’n hanfodol bod rhanddeiliaid ledled Cymru yn ymgysylltu’n llawn – mae adrannau’r llywodraeth, ei hasiantaethau, awdurdodau

cyhoeddus sydd â chylch gwaith yng Nghymru, sefydliadau amgylcheddol, cymunedau, a busnesau a'u holl systemau gwneud penderfyniadau sefydliadol allweddol yr un mor bwysig. Mae hyn yn golygu cryfhau partneriaethau a chydweithrediadau presennol a meithrin rhai newydd i ddatblygu cyfrifoldeb ar y cyd a sicrhau cyfranogiad cynhwysfawr wrth gyflawni adferiad bioamrywiaeth.

**31.** Sgwrs genedlaethol am ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru yw Natur a Ni, sydd wedi'i hwyluso gan CNC. Ei nod yw creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer 2050 ac ystyried y newidiadau sydd angen eu gwneud ar gyfer 2030 a 2050. Mae'n annog pobl i feddwl am yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac i helpu i ddeall sut mae pobl yn teimlo am natur a sut mae angen newid perthynas cymdeithas â natur. Bydd y weledigaeth hon a rennir yn cael ei chyhoeddi yn ystod haf 2023 ac yn creu sylfaen ar gyfer meithrin cydberthnasau newydd er mwyn bwrw ymlaen â chamau gweithredu, ac i gyfrannu at waith i adeiladu dulliau gweithredu ar y cyd drwy ein rhwydweithiau. Bydd CNC yn darparu ymateb ffurfiol i'r weledigaeth yn ystod hydref 2023.

**Cyllid ac adnoddau – prif ffrydio camau gweithredu**

**32.** Mae amrywiaeth eang o bwysau a sbardunau systemau naturiol, gan gynnwys ansawdd aer a dŵr, newid defnydd tir a newid hinsawdd, yn effeithio ar golli bioamrywiaeth a'i hadferiad. Mae cyllid ac adnoddau digonol yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r GBF, yn ogystal â mesurau cadwraeth bioamrywiaeth Cymru. Nid cyflawni yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yw'r unig brif lwybr y gellir ei ddilyn i atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth. Mae gan y sector preifat – busnesau mawr a bach a'r holl sefydliadau cysylltiedig a'r systemau gwneud penderfyniadau sy'n eu cefnogi ac yn dylanwadu arnynt – hefyd ran fawr, a hanfodol, i'w chwarae. Mae'n hanfodol ein bod yn archwilio'r ffordd orau o geisio cymorth ariannol ac, yn hollbwysig, adeiladu capasiti newydd drwy ffynonellau cenedlaethol eraill a rhai rhyngwladol hyd yn oed, gan gynnwys, er enghraifft, mentrau cyhoeddus-preifat neu fecanweithiau ariannu arloesol, i sicrhau mwy o fuddsoddiad parhaus mewn bioamrywiaeth.

**33.** Mae cydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i ymgysylltu â sefydliadau'r sector preifat yn allweddol. Nod prosiect *Darparu Model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer Adfer Natur* Llywodraeth Cymru, sydd o dan ofal Finance Earth, Eunomia a'r RSPB, yw datblygu dull cynaliadwy ac eang o ymdrin â chyllid a darpariaeth natur y gellir ei gyflwyno ar raddfa effeithiol. Un agwedd allweddol yw asesu potensial ecosystemau Cymru a chyflawni gwelliannau yng nghyd-destun marchnadoedd buddsoddi'r sector preifat. Mae grŵp buddsoddi glas Partneriaeth Arfordiroedd a Moroedd Cymru (CaSP Cymru) wedi bod yn trafod y posibilrwydd o sefydlu cronfa er mwyn trosoli cyllid y sector preifat i gefnogi darpariaeth forol ac arfordirol.

**Cydweithrediad rhyngwladol**

34. Mae cydweithio â phartneriaid, sefydliadau neu fentrau rhyngwladol hefyd yn hanfodol ar gyfer rhannu'r arferion gorau, cyfnewid gwybodaeth, ac, o bosibl, trosoli adnoddau. Mae cymryd rhan mewn fforymau a rhwydweithiau cysylltiedig sy’n ymroddedig i warchod bioamrywiaeth o gymorth i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau gwledydd eraill, a datblygiadau byd-eang hyd yn oed, mewn maes sy’n datblygu’n gyflym a fydd yn helpu i gyfrannu at ymdrechion ar y cyd, yn ogystal â sicrhau buddion i Gymru.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**30 Mai 2023**